Dogfen hawdd ei deall

# Ein cynlluniau ar gyfer gofal preswyl i bobl hŷn yn Rhondda Cynon Taf

**Rhowch wybod i ni beth yw eich barn chi erbyn 30 Tachwedd 2024.**



Cafodd y ddogfen yma ei hysgrifennu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae hi'n fersiwn hawdd i'w ddarllen o **'Ymgynghoriad Gofal Preswyl 2024'.**

**Hydref 2024**

# Sut i lenwi'r ffurflen ymateb yma




Dyma gyfres o gwestiynau ynghylch ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau Cartrefi Gofal Preswyl yn Rhondda Cynon Taf.



Hoffen ni wybod beth yw eich barn chi. Ceisiwch esbonio eich atebion gan nodi eich barn a'ch syniadau eich hun.



Efallai y bydd angen cymorth arnoch chi i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bydd geiriau glas yn anodd eu deall. Bydd y geiriau yma'n cael eu hegluro mewn blwch oddi tanyn nhw.

RHONDDA CYNON TAF

Yn y ddogfen yma mae'r gair **ni** yn golygu **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.**




Dychwelwch y ffurflen yma aton ni erbyn

**30 Tachwedd 2024.**



**Cyfeiriad:**
Rhadbost RUGK-EZZL-ELBH
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Swyddfa Llawr 4
2 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH



gofalpreswyl@rctcbc.gov.uk

# Cyflwyniad



Ym mis Medi 2024 cytunodd Cyngor Rhondda Cynon Taf i drafod newidiadau posibl i'n Cartrefi Gofal Preswyl. Maen nhw eisiau:



Ystyr **Cartref Gofal Preswyl** yw cartref i bobl hŷn er mwyn iddyn nhw gael gofal a chymorth ychwanegol os ydyn nhw'n ei chael hi'n anodd byw ar eu pennau eu hunain.

- Cau Cartref Gofal Tŷ Glynrhedynog yng Nglynrhedynog yn barhaol, yn 2024/2025.



- Cau Cartref Gofal Cae Glas yn y Ddraenen Wen yn barhaol, yn 2024/2025.




Rydyn ni nawr yn gofyn i chi ein helpu ni i wneud rhai penderfyniadau am y pethau yma.

P'un o'r rhain ydych chi?

Preswylydd mewn Cartref Gofal Preswyl:

Tŷ Glynrhedynog (Ferndale House) ☐

Cae Glas ☐

Perthynas, Partner neu Gyfaill preswylydd:

Tŷ Glynrhedynog (Ferndale House) ☐

Cae Glas ☐

Eiriolwr ar gyfer preswylydd ☐

Aelod o'r cyhoedd ☐

Aelod o Staff:

Tŷ Glynrhedynog (Ferndale House) ☐

Cae Glas ☐

Arall (nodwch) ______________________

______________________

______________________

# Cynnig 1: Cau Ferndale House.



Rydyn ni'n adeiladu cartref gofal dementia â 32 gwely yng Nglynrhedynog ar safle Ffactri Chubb gynt.

> Mae **Cartref Gofal Dementia** yn gartref gofal sy'n arbenigo mewn gofalu am bobl sy'n byw â dementia.

Rydyn ni'n cynnig cau Ferndale House.

Pe byddai Ferndale House yn cau, byddem ni'n colli 26 gwely cartref gofal.

Byddai hyn yn cynnwys 16 gwely cartref gofal ar gyfer pobl hŷn a 10 gwely ar gyfer pobl sy'n byw â dementia.

Pe byddai Ferndale House yn cau, byddai angen cymorth ar y bobl sy'n byw yno i ddewis cartref gofal arall i fyw ynddo sy'n diwallu eu hanghenion. Byddai angen cymorth ar eu teuluoedd hefyd o ran y penderfyniad yma.

## I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r syniad yma?



Anghytuno'n gryf ☐

Anghytuno i raddau ☐



Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐



Cytuno i raddau ☐

Cytuno'n gryf ☐



## Nodwch unrhyw sylwadau sydd gennych chi:



## Sut byddai'r cynnig yma'n effeithio arnoch chi neu'ch teulu?

# Cynnig 2: Cau Cartref Gofal Cae Glas.



Rydyn ni'n cynnig cau cartref gofal Cae Glas.

Pe byddem ni'n cau Cartref Gofal Cae Glas, byddem ni'n colli 39 gwely gofal preswyl dementia.

Mae **Cartref Gofal Dementia** yn gartref gofal sy'n arbenigo mewn gofalu am bobl sy'n byw â dementia.

I'n helpu ni â hyn, fe allen ni gynnig 10 gwely gofal dementia ychwanegol ym Mharc Newydd, Talbot Green. Mae gyda ni welyau ychwanegol hefyd yn Tegfan yn Aberdâr, nawr bod gwaith ar ddiweddaru ystafelloedd ychwanegol wedi dirwyn i ben.

Pe byddai'r cartref gofal yn cau, byddai'r pobl sy'n byw yno angen cymorth i ddewis cartref gofal arall i fyw ynddo a fyddai'n gallu diwallu eu hanghenion. Byddai angen cymorth ar eu teuluoedd hefyd o ran y penderfyniad yma.

## I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r syniad yma?



Anghytuno'n gryf ☐

Anghytuno i raddau ☐



Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐

Cytuno i raddau ☐



Cytuno'n gryf ☐



**Nodwch unrhyw sylwadau sydd gennych chi:**



**Sut byddai'r cynnig yma'n effeithio arnoch chi neu'ch teulu?**



# Unrhyw beth arall

**Oes unrhyw sylwadau eraill gyda chi hoffech chi i ni eu hystyried?**



# Dywedwch ychydig bach amdanoch chi wrthon ni

Mae angen i ni wybod ychydig amdanoch chi fel bod modd i ni ddeall eich atebion yn well.


**Beth yw'ch rhywedd?**

___



**Faint oed ydych chi?**

___




**Beth yw'ch cod post?**

___

# Diolch




Diolch i chi am lenwi'r ffurflen yma.




Dychwelwch y ffurflen yma aton ni erbyn **30 Tachwedd 2024.**



**Cyfeiriad:**
Rhadbost RUGK-EZZL-ELBH
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Swyddfa Llawr 4
2 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH



gofalpreswyl@rctcbc.gov.uk

# Gwybodaeth Monitro Cydraddoldeb



Mae'r wybodaeth yma'n cael ei chasglu'n ddienw a dim ond at ddiben gwella ein gwasanaethau y caiff ei defnyddio.




Nodwch fod yr adran yma'n ddewisol, ac **does dim rhaid i chi ateb y cwestiynau yma os nad ydych chi eisiau.**




Os byddwch chi'n dewis peidio ag ateb y cwestiynau yma, ticiwch y blwch **'Gwell gen i beidio dweud'** er mwyn i ni fod yn ymwybodol o'ch dewis.



Drwy nodi'r wybodaeth yma, mae'n rhoi'r modd i ni weld gyda pha grwpiau o bobl rydyn ni'n gweithio a pha grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

☐ **Gwell gen i beidio dweud** - Dydw i ddim eisiau darparu unrhyw wybodaeth y mae gofyn amdani ar y ffurflen yma.

**Sut byddai'r cynigion yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol:**

- Rhyw
- Oed
- Ethnigrwydd
- Anabledd
- Rhywioldeb
- Crefydd
- Cred
- Hunaniaeth rywedd
- Statws perthynas
- Beichiogrwydd
- Dewis iaith

Nodwch eich rheswm/rhesymau:

Mae'r Cyngor wedi canfod y gallai'r Gymraeg gael ei heffeithio gan eu cynlluniau.

Mae hyn yn rhan o'i broses wrth gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

**Sut byddai'r cynlluniau, yn eich barn chi, yn effeithio ar gyfleoedd i siaradwyr newydd ddefnyddio'r Gymraeg a'i hyrwyddo?**

- Yn gadarnhaol ☐
- Yn negyddol ☐
- Dim effaith ☐
- Ddim yn gwybod ☐

**Sut gallai effeithiau cadarnhaol gael eu hestyn, neu'r effeithiau negyddol gael eu lleihau?**

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

**Ydy'r Cynllun Strategol yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd?**

- Ydy ☐
- Nac ydy ☐
- Ddim yn gwybod ☐

**Ydych chi'n fodlon i ni gysylltu â chi er mwyn trafod eich ymateb i'r holiadur yma? Ticiwch y blwch:**

| | | |
|---|---|---|
| ✔ | Rydw i'n fodlon i chi gysylltu â mi | ☐ |
| ✘ | Dydw i ddim yn fodlon i chi gysylltu â mi | ☐ |

**Enw:** ______________________________

**E-bost / Rhif ffôn:** ______________________________

**Cod Post:** ______________________________




**Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yma.**

**Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol:**

Dim ond ar gyfer yr ymgynghoriad hwn y bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio. Os hoffech ddysgu mwy am sut y defnyddir eich gwybodaeth, gallwch ymweld â Gwefannau'r Cyngor isod:

**Hysbysiad Preifatrwydd:** https://bly.to/6938Pb4

**Diogelu Data:** https://bly.to/UqlfIxe

**Os ydych chi'n llenwi copi papur, anfonwch ef i:**



Rhadbost RUGK-EZZL-ELBH
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Swyddfa Llawr 4
2 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH



Neu anfonwch eich barn gyffredinol aton ni drwy e-bost: **gofalpreswyl@rctcbc.gov.uk**